

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Mehefin, 2021.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd Mrs. P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Mrs. J.E. Charles, G.A. Cox, R. Crowley ac S.T. William

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Cyhoeddodd y Cynghorydd M.R. Wilson ddiddordeb yn Eitemau 8 a 12 ar yr Agenda, "Tir oddi ar Myrtle Close, Penarth – Diweddariad" (Rhan I a Rhan II). Natur y diddordeb oedd bod y Cynghorydd yn Aelod dros Ward Stanwell ac yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Datgysylltodd y Cynghorydd o'r cyfarfod a'i adael cyn i'r eitemau agenda gael eu trafod, gyda'r Is-gadeirydd yn cymryd cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb.

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2021/22 (CA) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r ceisiadau am gymorth grant fel y'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r cynnig i hysbysu ymgeiswyr 2018/19 sy'n weddill bod yn rhaid iddynt nawr ailymgeisio am gyllid Deddf Eglwys Cymru oherwydd y cyfnod amser sydd wedi dod i ben.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn hyrwyddo amcanion yr Ymddiriedolaeth.

(2) Er mwyn sicrhau bod cyllid cyfyngedig Deddf Eglwys Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon gan sefydliadau.

EITEM AGENDA 5. TIR I GEFN CHURCH ROAD, TREGATWG (CA) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod penderfyniad ynglŷn â sut i symud ymlaen gyda datrysiad tymor hir yn gysylltiedig â chynnal a chadw a rheoli'r tir yn cael ei ohirio (heblaw am y camau a awdurdodwyd yn unol â phenderfyniad 2 isod) er mwyn i'r Ymddiriedolwyr gael cyfle i ymweld â'r safle a'i asesu ar sail unigol.

(2) Y dylid cysylltu â pherchnogion yr eiddo yn Church Road ger y tir a'u hysbysu am gyfle posibl i gael meddiant o'r tir.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn darparu cyd-destun i Ymddiriedolwyr cyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r mater hwn.

(2) Er mwyn i'r Ymddiriedolwyr ystyried ymateb y trydydd partion cyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r mater hwn.

EITEM AGENDA 6. GLEBE FIELDS – ADRODDIAD DIWEDDARU (CA) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad a'i ystyried fel y gellir gwneud penderfyniad ar y mater hwn o dan Ran II o'r agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Galluogi i benderfyniad gael ei wneud o dan Ran II o'r agenda.

EITEM AGENDA 7. TIR YN CASSY HILL, TREGATWG (CA) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod adroddiad ac argymhellion y Syrfëwr Cymwys yn cael eu hystyried yn adroddiad Rhan II ar yr agenda.

(2) Ar ôl ystyried adroddiad ac argymhellion Rhan II, mae'r Pwyllgor yn ystyried y camau nesaf a sut maent yn dymuno bwrw ymlaen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn i adroddiad y Syrfëwr Cymwys gael ei ystyried yn llawn ac yn unol â Chyfraith Elusennau.

(2) Er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y tir dan sylw ar ôl ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Syrfëwr Cymwysedig ac yn unol â Chyfraith Elusennau.

EITEM AGENDA 8. TIR ODDI AR MYRTLE CLOSE, PENARTH –
DIWEDDARIAD (CA) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod adroddiad ac argymhellion y Syrfëwr Cymwys yn cael eu hystyried yn adroddiad Rhan II ar yr agenda.
- (2) Ar ôl ystyried adroddiad ac argymhellion Rhan II, mae'r Pwyllgor yn ystyried y camau nesaf a sut maent yn dymuno bwrw ymlaen.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn i adroddiad y Syrfëwr Cymwys gael ei ystyried yn llawn ac yn unol â Chyfraith Elusennau.
- (2) Er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y tir dan sylw ar ôl ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Syrfëwr Cymwysedig ac yn unol â Chyfraith Elusennau.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. GLEBE FIELDS – DIWEDDARIAD AROLWG
DOSBARTHIAD TIR AMAETHYDDOL (CA) (GWYBODAETH EITHRIADOL –
PARAGRAFFAU 13 A 14) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r diweddariad ynghylch yr Arolwg Dosbarthu Tir Amaethyddol.
- (2) Y dylid sicrhau ymchwiliadau safle pellach er mwyn hyrwyddo'r safle fel safle ymgeisiol ar yr adeg berthnasol.
- (3) Rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol dros Eiddo, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifiaeth, i gytuno ar y costau ymgynghori sy'n gysylltiedig ag unrhyw benodiadau pellach y cyfeirir atynt ym Mhenderfyniad (2) uchod.
- (4) Bod adroddiad diweddar pellach pan fydd canlyniadau unrhyw ymchwiliadau/ arolygon safle pellach ar gael yn cael eu hystyried.

(5) Bod adroddiad ar wahân ynghylch sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i threfniadau rheoli buddsoddiad yn dod i'r Pwyllgor i'w hystyried er mwyn llywio'r ystyriaeth i gael gwared ar y safle yn y dyfodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor allu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â dyfodol y tir ar yr adeg briodol.

(3) Er mwyn datblygu apwyntiadau mewn modd amserol.

(4) Er mwyn diweddarau'r Pwyllgor ar yr adeg briodol.

(5) Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried goblygiadau adroddiad o'r fath mewn perthynas â'r mater hwn.

EITEM AGENDA 11. TIR YN CASSY HILL, TREGATWG (CA) (GWYBODAETH EITHRIADOL – PARAGRAFFAU 12 A 14) –

PENDERFYNWYD –

(1) Dylid nodi'r mynegiant o ddiddordeb yn y darn bach o dir yn Cassy Hill, Tregatwg.

(2) Bod y tir y cyfeiriwyd ato yn cael ei waredu yn unol ag adroddiad y Syrfëwr Cymwys.

(3) Rhoddi'r awdurdod dirprwyedig hwnnw i'r Rheolwr Gweithredol dros Eiddo, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Cyfreithiol, i gytuno ar delerau ac amodau'r gwarediad.

(4) Bod y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Cyfreithiol yn cael awdurdod dirprwyedig i ddrafftio, cwblhau a gweithredu unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r gwerthiant.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor fynd yn ei flaen yn unol ag argymhellion y Syrfëwr Cymwys.

(3) Er mwyn symud ymlaen â'r gwarediad.

(4) Er mwyn cwblhau'r gwarediad.

EITEM AGENDA 12. TIR ODDI AR MYRTLE CLOSE, PENARTH –
DIWEDDARIAD (CA) (GWYBODAETH EITHRIADOL – PARAGRAFFAU 12 A 14) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys adroddiad y Syrfëwr Cymwys.

(2) Bod y Rheolwr Gweithredol dros Eiddo yn cael ei chyfarwyddo i ymgysylltu â holl berchnogion hysbys y tir o amgylch y safle ynghylch opsiynau mynediad, a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor maes o law.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn ymgynghori â'r holl bartion perthnasol ynghylch opsiynau pellach a bod y Pwyllgor yn cael ei hysbysu'n llawn cyn dod i benderfyniad ynghylch y mater hwn.